

Ystradgynlais Fy Nghymuned Leol i



Mae Ystradgynlais yn bentref mawr yn ne-orllewin Cymru. Mae ganddo boblogaeth o ryw 8,500 o bobl. Mae'r rhan fwyaf o bobl y pentref yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, ond mae llawer o bobl yn siarad Cymraeg, ac mae rhai yn siarad ieithoedd eraill, e.e. Arabeg, Bengaleg, Tsieinëeg.



Mae gan y pentref ganol prysur sydd wedi'i seilio o gwmpas croesffordd a elwir yn lleol "the Cross". Mae llawer o siopau a chaffis yno. Mae archfarchnad Tesco fawr ryw filltir y tu allan i'r pentref.

Roedd Ystradgynlais yn bentref lle y byddai'r rhan fwyaf o ddynion yn gweithio fel glowyr yn un o'r pyllau glo niferus lleol, ond erbyn hyn, mae pob un o'r pyllau wedi cau. Roedd gwaith haearn mawr yn arfer bod yn y pentref.

Enw'r tŷ hynaf sydd yn y pentref yw 'Ystrad Fawr House' ac yn ôl pob sôn, gwnaeth Oliver Cromwell ymweld ag ef un tro.



Mae nifer o fannau cymunedol yno, fel y llyfrgell, neuadd yr eglwys a Neuadd Les y Glowyr.



Mae afon Tawe yn rhedeg drwy'r pentref ac mae nifer o bontydd yn ei chroesi. Lleolir Ystradgynlais ar drothwy Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae llawer o droeon hyfryd yn arwain dros y bryniau a'r mynyddoedd.



Un o'r pethau cyntaf y gwelwch wrth fynd i mewn i'r pentref yw'r clwb rygbi, ond mae hefyd clybiau pêl-droed yno, clwb tennis a chlwb bowlïo. Mae gan y pentref hefyd fand pres.

Yn aml, caiff y pentref ei lenwi gan drefniadau blodau gwych, diolch i grŵp o wirfoddolwyr lleol sy'n galw eu hunain "Blodau". Y mae hefyd nifer o barciau hyfryd yno.



Eglwys Sant Cynog yw enw'r eglwys blwyf sydd gerllaw i'r eglwys Gatholig 'Church of the Sacred Heart'. Y mae nifer o gapeli yn y pentref sydd yn parhau i gael eu defnyddio.



Dyma baentiad gan arlunydd enwog o'r enw Josef Herman a wnaeth ymgartrefu yn Ystradgynlais.



Y mae sawl ysgol gynradd yno, gan gynnwys ysgol cyfrwng Cymraeg, ysgol uwchradd a meddygfa.



Mae cymhlethfa ogofau Dan yr Ogof sydd gerllaw yn lle gwych i ymweld ag ef. Y mae hefyd noddfa epaod dwy filltir i ffwrdd.